O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2377(Cy.255)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Gylchfan Caeriw i Gyffordd Redberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *13 Medi 2012*

Yn dod i rym *23 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Gylchfan Caeriw i Gyffordd Redberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19.00 o'r gloch ar 23 Medi 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;